**<u>Ymgynghoriad Polisi Codi Tâl am Ofal</u>**

**<u>Dyddiad Cau 23/12/2024</u>**

**Crynodeb**

Fel crynodeb, mae'r prif ganlyniadau fel y ganlyn:

- Roedd 73 ymateb i'r ymgynghoriad.

- Roedd 38% o'r ymatebwyr yn aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal, 25% yn ofalydd di-dâl a 4% yn ddefnyddiwr gwasanaethau gofal. Atebodd 33% 'arall'.

- Roedd 55% yn ymwybodol o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd. Roedd y 45% arall yn anymwybodol.
    - Roedd 15 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn uchod, y thema fwyaf cyffredin oedd fod y Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill.

- Roedd 72% o'r ymatebwyr wedi dewis 'nac ydi' fel ymateb i'r cwestiwn os yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu, a 28% wedi dewis 'ydi'.
    - Roedd 14 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd aneglur/ddim yn deall y polisi.

- Roedd 71% o ymatebwyr wedi dewis dylai barhau y polisi lle nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd), 14% wedi dewis na ddylai a 15% dim barn cryf.
    - Roedd 17 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu.

- Roedd 71% o'r ymatebwyr wedi ymateb na ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl, gyda 21% wedi nodi dylai a 8% dim barn cryf.
    - Roedd 15 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd y dylai fod am ddim.

- Fel ymateb i'r cwestiwn 'os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd, dylai'r ffi gael ei godi drwy:' roedd 42% wedi dewis ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb, 39% wedi dewis ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos), ac 18% dim barn cryf.

  - Roedd 26 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi.

- Roedd 51% o ymatebwyr wedi dewis na ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014), gyda 32% yn dewis dylai a 17% yn dewis dim barn cryf.
  - Roedd 14 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd yn darparu eu trafnidiaeth eu hunain yn barod.

- Roedd 48% o ymatebwyr wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael effaith negyddol neu ychydig o effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned, tra fod 44% wedi dewis dim effaith, a 7% wedi dewis effaith gadarnhaol neu ychydig o effaith gadarnhaol.

- Roedd y mwyafrif 69% wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael effaith negyddol neu ychydig o effaith negyddol ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, tra fod 17% wedi dewis dim effaith, a 14% wedi dewis effaith gadarnhaol neu ychydig o effaith gadarnhaol.

- Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg fesul ymateb i'r cwestiwn 'Y ydych yn:'. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys yn Atodiad A. Gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel mae angen cymryd gofal wrth edrych ar y dadansoddiad yma.

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Canlyniadau Yr Arolwg
- 2.1 Yr Ymatebwyr
- 2.2 Ymwybyddiaeth o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a’r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi’n cael ei godi ar hyn o bryd
- 2.3 Eglurder y Polisi Codi Tâl
- 2.4 Ffi am Ofal Uniongyrchol i Ofalwyr Di-dal
- 2.5 Ffi am Wasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl
- 2.6 Codi Ffi am Fynychu Gwasanaethau Dydd
- 2.7 Codi Ffi am Drafnidiaeth

3.0 Canlyniadau Eich barn
- 3.1 Effaith ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned
- 3.2 Effaith ar bobl sy’n wynebu anfantais economaiddgymdeithasol

4.0 Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb – Amdanoch chi
- 4.1 Rhyw
- 4.2 Grŵp Oedran
- 4.3 Sgiliau yn y Gymraeg
- 4.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol
- 4.5 Hil
- 4.6 Crefydd
- 4.7 Rhywioldeb
- 4.8 Hunaniaeth Rhywedd
- 4.9 Anabledd

Atodiad A

## 1.0 Cyflwyniad

Mae bwriad diweddaru polisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod y polisi yn parhau i gyd fynd a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n mynnu nad yw unrhyw un talu mwy nag y gallant fforddio'n rhesymol.

Mae gofyn ar y Cyngor i adolygu ei ffioedd yn amserol er mwyn sicrhau fod y ffioedd sy'n cael eu codi yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol o ddarparu gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys a chynaliadwy i'r dyfodol, un ystyriaeth fydd i ychwanegu'r hawl i'r Cyngor godi am wasanaethau penodol sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol (er enghraifft gwasanaethau dydd).

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd i gael eich barn ar rai o'r agweddau o fewn y polisi. Bydd canlyniadau yr ymgynghoriad yn bwydo mewn i argymhellion o addasiadau i'r polisi fydd yn mynd gerbron cabinet y Cyngor yn fuan yn 2025.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad gau ar y 23 o Ragfyr 2024 am 5 o gloch.

Roedd 73 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2.0 Canlyniadau Yr Arolwg

### 2.1 Yr Ymatebwyr

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 1).

*Tabl 1 – Ymatebion i'r cwestiwn 'A ydych yn:' fel nifer a canran*

| A ydych yn: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 24 | 33% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | 27 | 38% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | 3 | 4% |
| Gofalydd di-dâl | 18 | 25% |
| **Cyfanswm** | **72** | **100%** |

Roedd 38% (n=27) o'r ymatebwyr ymatebodd i'r cwestiwn uchod wedi dewis eu bod yn 'aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal', 33% (n=24) wedi dewis 'arall', 25% (n=18) wedi dewis eu bod yn 'ofalydd di-dâl' a 4% (n=3) wedi dewis 'defnyddiwr gwasanaethau gofal'.

O'r 24 o ymatebwyr dewisodd arall, ni wnaeth y mwyafrif (n=18) nodi unrhyw sylw ychwanegol. Fe wnaeth y 6 ymatebwr arall nodi eu bod yn weithiwr cymdeithasol (n=2), aelod o deulu person wedi marw oedd mewn gofal (n=1), aelod o'r cyhoedd (n=1), gofalwr sy'n cael eu talu (n=1) a person hŷn (n=1).

Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb y gwahanol grwpiau sydd wedi eu nodi yn nhabl 1 i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys yn Atodiad A. Dylai peth ofal gael ei ddefnyddio pan yn edrych ar yr ymatebion fesul grŵp yn y tabl yma, gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel.

### 2.2 Ymwybyddiaeth o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd

Roedd 73 ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 2).

*Tabl 2 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer a canran*

| **Ymwybyddiaeth** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ddim yn ymwybodol | 33 | 45% |
| Ymwybodol | 40 | 55% |
| **Cyfanswm** | **73** | **100%** |

Roedd 55% (n=40) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd, tra fod 45% (n=33) ddim yn ymwybodol. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 3).

*Tabl 3 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (15 ymateb)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill | 5 |
| Talu/cyfrannu yn barod | 2 |
| Ymwybodol ond ddim yn deall sut mae'n gweithio | 2 |
| Angen cysylltu gyda defnyddwyr unigol am godi ffioedd | 1 |
| Angen fod yn fwy eglur beth yw yr hafaliad 'Minimum Income Amount' | 1 |
| Anghytuno gyda'r cyngor yn codi ffi | 1 |
| Ymgynghoriad ddim ar agor am ddigon hir ac ar gyfnod prysur | 1 |
| Cytuno ond angen eglurder | 1 |
| Sefyllfa personol yr unigolyn | 1 |
| Ydi hwn am ddim i oedolion sydd ei angen | 1 |
| **Cyfanswm Themâu (nid sylwadau)** | **16** |

Roedd 16 prif thema yn y sylwadau yma. Y thema mwyaf cyffredin oedd Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill (n=5), wedyn eu bod yn talu/cyfrannu yn barod (n=2) ac eu bod yn ymwybodol ond ddim yn deall sut mae'n gweithio (n=2).

2.3 Eglurder y Polisi Codi Tâl

Roedd 71 ymateb i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 4).

*Tabl 4 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer a canran*

| **Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 51 | 72% |
| Ydi | 20 | 28% |
| **Cyfanswm Popeth** | **71** | **100%** |

Dewisodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (72%, n=51) 'nac ydi' fel ymateb i'r cwestiwn ynglŷn ag eglurder y polisi codi tâl am ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu, gyda 28% (n=20) wedi dewis 'ydi'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 14 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 5)

*Tabl 5 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (14 ymateb)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Aneglur / dim yn deall y polisi | 4 |
| Adroddiad ddim yn cyfeirio at ofalwyr di-dal | 1 |
| Ddim yn siŵr sut mae'n gweithio | 1 |
| Cyfrannu yn barod am ofal ysbaid | 1 |
| Ddim yn sicr beth sydd ar gael am ddim i ofalwyr di-dal | 1 |
| Rhan fwyaf o ofalwyr ddim yn ymwybodol o'r polisi, pobl anabl ddim yn gwybod gall ffi cael ei godi | 1 |
| Dim ateb | 1 |
| Gall codi ffi am amser mewn uned rwystro gofalwyr rhag allu gweithio | 1 |
| Gofalu yn gyfrifoldeb hir dymor | 1 |
| Heb ddarllen y polisi | 1 |
| Yndi | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **14** |

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd aneglur / ddim yn deall y polisi (n=4). Roedd nifer o sylwadau yn dilyn thema tebyg gan gynnwys ‘ddim yn siŵr sut mae’r gweithio (n=1), ddim yn sicr beth sydd ar gael am ddim i ofalwyr di-dal (n=1) a rhan fwyaf o ofalwyr ddim yn ymwybodol o'r polisi, pobl anabl ddim yn gwybod gall ffi cael ei godi (n=1).

<u>2.4 Ffi am Ofal Uniongyrchol i Ofalwyr Di-dal</u>

Roedd 72 ymateb i’r cwestiwn ‘Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw’r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo’r gwasanaeth yn enw’r gofalydd). A ddylai’r polisi yma barhau?’, mae’r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 6).

*Tabl 6 – Ymatebion i’r cwestiwn ‘Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw’r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo’r gwasanaeth yn enw’r gofalydd). A ddylai’r polisi yma barhau?’ fel nifer a canran*

| A ddylai’r polisi yma barhau | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim barn gryf | 11 | 15% |
| Dylai | 51 | 71% |
| Na ddylai | 10 | 14% |
| **Cyfanswm Popeth** | **72** | **100%** |

Dewisodd y mwyafrif, sef 71%, o’r ymatebwyr ‘dylai’ fel ymateb i’r cwestiwn os dylai’r polisi yma barhau (n=51), gyda 15% (n=11) wedi dewis ‘dim barn cryf’ a 14% (n=10) ‘na ddylai’. Gwnaed dadansoddiad o’r ymatebion i’r cwestiwn uchod fesul ymateb i’r cwestiwn ‘A ydych yn’, a mae’r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 17 o sylwadau wedi cael eu nodi. Mae’r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 7)

*Tabl 7 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau?' fel nifer*

| Thema | Nifer (17 ymateb) |
|---|---|
| Byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu | 5 |
| Gall hyn achosi tlodi neu rhoi pwysau ariannol | 2 |
| Effaith gofalu ar allu unigolyn i weithio | 2 |
| Ddim yn deall am be mae hyn yn sôn | 2 |
| Angen sicrhau fod hyn ddim yn achosi caledi | 1 |
| Angen i ofalwyr cael amser i'w llesiant i sicrhau eu bod yn aros yn iach | 1 |
| Sut mae gofalwyr wedi cael eu ymgynghori | 1 |
| Cyngor mewn sefyllfa cyllidol heriol | 1 |
| Ddim yn siŵr | 1 |
| Dylai wasanaethau dydd i oedolion fod am ddim | 1 |
| Fyddai'n anodd i bobl heb y wasanaeth yma | 1 |
| Gofalwyr di-dal yn arbed pres i'r cyngor / person sydd angen gofal ddim yn cael y cymorth mae nhw angen | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **19** |

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu (n=5). Roedd sylwadau pellach yn dilyn themâu tebyg gan gynnwys gall hyn achosi tlodi neu rhoi pwysau ariannol (n=2) ac angen sicrhau fod hyn ddim yn achosi caledi (n=1). Roedd themâu eraill yn codi gan gynnwys effaith gofalu ar allu unigolyn i weithio (n=2) a ddim yn deall am be mae hyn yn sôn (n=2) ymysg eraill.

2.5 Ffi am Wasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?  ', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 9).

*Tabl 8 – Ymatebion i'r cwestiwn  'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer a canran*

| A ddylai'r Cyngor godi ffi | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim barn gryf | 6 | 8% |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai | 15 | 21% |
| Na ddylai | 51 | 71% |
| **Cyfanswm Popeth** | **72** | **100%** |

Dewisodd y mwyafrif o ymatebwyr 'na ddylai' (71%, n=51) fel ymateb i'r cwestiwn os dylai'r Cyngor godi ffi, gyda 21% (n=15) yn dewis 'dylai' a 8% (n=6) 'dim barn cryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 9).

*Tabl 9 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (15 ymateb)** |
|---|---|
| Dylasai fod am ddim | 4 |
| Fyddai hyn yn rhoi mwy o bwysau neu fyrdwn ar yr unigolyn (ariannol neu straen) | 3 |
| Dylasai GIG cyflawni hyn | 2 |
| Angen trin pawb yr un fath | 1 |
| Cleifion ddim yn gorfod talu am cyflwr corfforol hirdymor | 1 |
| Dim yn deall | 1 |
| Dylasai ffi cael ei godi | 1 |
| Efallai | 1 |
| Lleihau annibyniaeth | 1 |
| Ymateb aneglur - dim categori | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **16** |

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd dylasai fod am ddim (n=4), fyddai hyn yn rhoi mwy o bwysau neu fyrdwn ar yr unigolyn (ariannol neu straen) (n=3) a dylasai GIG gyflawni hyn (n=2).

<u>2.6 Codi ffi am Fynychu Gwasanaethau Dydd</u>

Roedd 66 ymateb i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 10).

*Tabl 10 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:' fel nifer a canran*

| **A ddylai'r ffi gael ei godi drwy** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dim barn gryf | 12 | 18% |
| Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb | 28 | 42% |
| Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos). | 26 | 39% |
| **Cyfanswm Popeth** | 66 | 100% |

O'r rhai ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dewisodd 42% (n=28) 'ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb' a 39% (n=26) 'Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos)'. Dewisodd 18% (n=12) 'dim barn cryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 26 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 11)

*Tabl 11 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (26 ymateb)** |
|---|---|
| Dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi | 7 |
| Gofal dydd yn cael effaith ar lesiant ac annibyniaeth | 5 |
| Dylasai y cwestiwn gynnwys opsiwn i beidio codi ffi | 3 |
| Gwasanaethau dydd yn galluogi i ofalwyr weithio | 2 |
| Pwysau ychwanegol | 2 |

| | |
|---|---|
| Codi ffi yn arwain at dorri staff gofal | 2 |
| Codi ffi yn arwain at ofalwyr di-dal stopio gweithio i ddarparu gofal | 2 |
| Deall fod cyngor angen codi arian ond dylasai hyn fod mewn adrannau eraill | 1 |
| Angen asesiad os am godi ffi | 1 |
| Codi ffi yn effeithio gofal yn negyddol ac arwain i bobl chwilio am ofal preswyl sydd ddim ar gael. | 1 |
| Dim yn deall pam dydi dementia ddim yn ran o'r GIG | 1 |
| Disgresiwn os yw 2 aelod o'r teulu yn derbyn gofal dydd | 1 |
| Dylasai ffi fod yn wahanol yn dibynnu ar anghenion gofal | 1 |
| Fysai unrhyw ffi yn debygol o gael effaith negyddol ar yr aelwydydd sydd eu hangen | 1 |
| Gwasanaethau dydd yn rhoi amser i ofalwyr a newid i'r person sydd yn derbyn gofal | 1 |
| Hapus i dalu os fysai'r wasanaeth yn cael ei wella | 1 |
| Rhai methu fforddio talu ffi | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **33** |

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau yma oedd dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi (n=7), trafod gofal dydd yn cael effaith ar lesiant ac annibyniaeth (n=5) a dylasai y cwestiwn gynnwys opsiwn i beidio codi ffi (n=3).

2.7 Codi Ffi am Drafnidiaeth

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 12).

*Tabl 12 – Ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?' fel nifer a canran*

| **Codi ffi am drafnidiaeth** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dim barn gryf | 12 | 17% |
| Dylai | 23 | 32% |
| Na ddylai | 37 | 51% |
| **Cyfanswm Popeth** | 72 | 100% |

Dewisodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%, n=37) 'na ddylai' fel ymateb i'r cwestiwn ynglŷn a codi ffi am drafnidiaeth, tra fod 32% (n=23) wedi dewis 'dylai' a 17% (n=12) wedi dewis 'dim barn gryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 14 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 13)

*Tabl 13 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (14 ymateb)** |
|---|---|
| Yn darparu trafnidiaeth eu hunain yn barod | 3 |
| Dylasai trafnidiaeth fod am ddim / annheg i'r unigolyn dalu | 2 |
| Efallai gwneud cyfraniad | 2 |
| Annheg i roi cyfyngiadau ariannol ar ddefnyddwyr | 1 |
| Codi ffi os fforddiadwy i'r unigolyn | 1 |
| Gobeithio gallu osgoi codi ffi ond os rhaid dylasai godi ffi teg | 1 |
| Pawb methu talu unrhyw dal ychwanegol | 1 |
| Talu am drafnidiaeth yn barod | 1 |
| Teg talu am drafnidiaeth | 1 |
| Ymateb aneglur - dim thema wedi nodi | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **14** |

Y themâu mwyaf cyffredin fel ymateb i'r cwestiwn yma oedd yn darparu eu trafnidiaeth eu hunain yn barod (n=3), dylasai trafnidiaeth fod am ddim / annheg i'r unigolyn dalu (n=2) ag efallai gwneud cyfraniad (n=2).

## 3.0 Canlyniadau Eich barn

### <u>3.1 Effaith ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned</u>

Roedd 70 ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 14).

*Tabl 14 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned:' fel nifer a canran*

| **Effaith ar yr iaith Gymraeg** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 4 | 6% |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 1 | 1% |
| Dim effaith | 31 | 44% |
| Effaith negyddol | 26 | 37% |
| Ychydig o effaith negyddol | 8 | 11% |
| **Cyfanswm Popeth** | 70 | 100% |

Roedd y mwyafrif (48%, n=34) wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael 'effaith negyddol' neu 'ychydig o effaith negyddol' ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned, tra fod 44% (n=31) wedi dewis 'dim effaith', a 7% (n=5) wedi dewis 'effaith gadarnhaol' neu 'ychydig o effaith gadarnhaol'.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 15).

*Tabl 15 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned:' fel nifer*

| **Thema** | **Nifer (15 ymateb)** |
|---|---|
| Dim yn gweld effaith ar yr iaith Gymraeg | 2 |
| Dim yn gweld sut mae hyn yn berthnasol | 2 |
| Dwyieithog lle bosib os ddim yn effeithio ansawdd gofal | 1 |
| Angen mwy o gefnogaeth i bobl gyda anghenion cyfathrebu ychwanegol | 1 |
| Fydd gwasanaethau lleol iaith Gymraeg yn cau | 1 |
| Gofal lleol yn aml yn Gymraeg | 1 |
| Gwynedd yn dlotach a fydd yr iaith felly yn cael ei effeithio | 1 |
| Helpu cymdeithasu os yn gallu cyfarfod pobl sy'n siarad Cymraeg | 1 |

| | |
|---|---|
| Iaith Gymraeg yn gallu bod yn rwystr i lefel gofal sydd ar gael gan ei fod yn effeithio gallu bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg i fod yn ofalwyr | 1 |
| Llai o fynediad at wasanaethau yn cael effaith negyddol ar lot o bethau gan gynnwys y Gymraeg | 1 |
| Mae methu cyfarfod siaradwyr Cymraeg eraill gan eich bod methu fforddio teithio neu'r gwasanaethau yn wahaniaethol | 1 |
| Ydy'r iaith yn cael ei weld yn fwy pwysig na gofal? | 1 |
| Dim thema | 1 |
| Dim ymateb | 1 |
| **Cyfanswm Themâu** | **16** |

3.2 Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaiddgymdeithasol

Roedd 70 ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol? ', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 16).

*Tabl 16 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?' fel nifer a canran*

| **Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 7 | 10% |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 3 | 4% |
| Dim effaith | 12 | 17% |
| Effaith negyddol | 41 | 59% |
| Ychydig o effaith negyddol | 7 | 10% |
| **Cyfanswm Popeth** | **70** | **100%** |

Roedd y mwyafrif (69%, n=48) wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael 'effaith negyddol' neu 'ychydig o effaith negyddol' ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, tra fod 17% (n=12) wedi dewis 'dim effaith', a 14% (n=10) wedi dewis 'effaith gadarnhaol' neu 'ychydig o effaith gadarnhaol'.

**4.0 Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb – Amdanoch chi**

Mae'r tablau isod (Tabl 17 - 25) yn cynnwys ymatebion i'r cwestiynau cydraddoldeb cafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

4.1 Rhyw

*Tabl 17 – Ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn a 'Rhyw'*

| **Rhyw** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1 | 1% |

| | | |
|---|---|---|
| Dyn / Gwryw | 26 | 36% |
| Dynes / Benyw | 41 | 57% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4 | 6% |
| **Cyfanswm Popeth** | **72** | 100% |

4.2 Grŵp Oedran

*Tabl 18 – Ymatebion i'r cwestiwn  'Nodwch eich grŵp oedran'*

| **Grŵp Oedran** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| 25 - 34 oed | 4 | 6% |
| 35 - 44 oed | 13 | 18% |
| 45 - 54 oed | 19 | 26% |
| 55 - 64 oed | 14 | 19% |
| 65 - 74 oed | 12 | 17% |
| 75 - 84 oed | 5 | 7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5 | 7% |
| **Cyfanswm Popeth** | **72** | 100% |

4.3 Sgiliau yn y Gymraeg

*Tabl 19 – Ymatebion i'r cwestiwn  'Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?'*

| **Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Arall | 4 | 6% |
| Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg | 11 | 16% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6 | 9% |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 4 | 6% |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 34 | 49% |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 8 | 11% |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 3 | 4% |
| **Cyfanswm Popeth** | **70** | 100% |

4.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

*Tabl 20 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?'*

| Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 3 | 4% |
| Cymreig | 46 | 65% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4 | 6% |
| Prydeinig | 12 | 17% |
| Seisnig | 6 | 8% |
| **Cyfanswm Popeth** | **71** | 100% |

4.5 Hil

*Tabl 21 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw eich hil?'*

| Hil | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 2 | 3% |
| Asiaidd | 1 | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 4 | 6% |
| Gwyn | 64 | 90% |
| **Cyfanswm Popeth** | **71** | 100% |

4.6 Crefydd

*Tabl 22 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw eich crefydd?'*

| Crefydd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arall | 3 | 4% |
| Bwdhaidd | 2 | 3% |
| Cristion | 35 | 49% |
| Dim crefydd | 25 | 35% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 6 | 8% |
| **Cyfanswm Popeth** | **71** | 100% |

4.7 Rhywioldeb

*Tabl 23 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?'*

| **Rhywioldeb** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Arall | 3 | 4% |
| Deurywiol (Bisexual) | 2 | 3% |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 1 | 1% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 8 | 11% |
| Heterorywiol / Strêt | 56 | 80% |
| **Cyfanswm Popeth** | **70** | 100% |

4.8 Hunaniaeth Rhywedd

*Tabl 24 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)'*

| **Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Gwell gennyf beidio â dweud | 8 | 11% |
| Nac ydi | 61 | 87% |
| Ydi | 1 | 1% |
| **Cyfanswm Popeth** | **70** | 100% |

4.9 Anabledd

*Tabl 25 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os: a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?'*

| **Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 14% |
| Nac ydw | 47 | 66% |
| Ydw | 14 | 20% |
| **Cyfanswm Popeth** | **71** | 100% |

**Atodiad A**

Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb y gwahanol grwpiau sydd wedi eu nodi yn nhabl 1 i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys isod. Dylai peth ofal gael ei ddefnyddio pan yn edrych ar yr ymatebion fesul grŵp yn y tabl yma, gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel.

*Tabl 26 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| **A ydych yn:** | **Ymwybyddiaeth o'r polisi codi tâl am ofal** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Arall | Ddim yn ymwybodol | 10 | 42% |
| | Ymwybodol | 14 | 58% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | Ddim yn ymwybodol | 13 | 48% |
| | Ymwybodol | 14 | 52% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Ddim yn ymwybodol | 3 | 100% |
| | Ymwybodol | 0 | 0% |
| Gofalydd di-dâl | Ddim yn ymwybodol | 7 | 39% |
| | Ymwybodol | 11 | 61% |
| Heb nodi | Ymwybodol | 1 | |
| | **Cyfanswm Popeth** | **73** | |

*Tabl 27 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| **A ydych yn:** | **Yw'r polisi yn eglur** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Arall | Nac ydi | 17 | 74% |
| | Ydi | 6 | 26% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | Nac ydi | 20 | 77% |
| | Ydi | 6 | 23% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Nac ydi | 2 | 67% |
| | Ydi | 1 | 33% |
| Gofalydd di-dâl | Nac ydi | 12 | 67% |
| | Ydi | 6 | 33% |
| Heb nodi | Ydi | 1 | |
| | **Cyfanswm Popeth** | 71 | |

*Tabl 28 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau? ' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| **A ydych yn:** | **Dylai'r polisi yma barhau?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Arall | Dim barn gryf | 4 | 17% |
| | Dylai | 13 | 54% |
| | Na ddylai | 7 | 29% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | Dim barn gryf | 4 | 15% |
| | Dylai | 20 | 74% |
| | Na ddylai | 3 | 11% |
| | Dim barn gryf | 1 | 33% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Dylai | 2 | 67% |
| Gofalydd di-dâl | Dim barn gryf | 1 | 6% |
| | Dylai | 16 | 94% |
| Heb nodi | Dim barn gryf | 1 | |
| | **Cyfanswm** | 72 | |

*Tabl 29 – Ymatebion i'r cwestiwn ''Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| A ydych yn: | Dylai'r Cyngor godi ffi? | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|
| Arall | Dylai | 11 | 46% |
| | Na ddylai | 13 | 54% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | Dim barn gryf | 3 | 11% |
| | Dylai | 3 | 11% |
| | Na ddylai | 21 | 78% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Na ddylai | 2 | 100% |
| Gofalydd di-dâl | Dim barn gryf | 3 | 17% |
| | Dylai | 1 | 6% |
| | Na ddylai | 14 | 78% |
| Heb nodi | Na ddylai | 1 | |
| | **Cyfanswm Popeth** | 72 | |

*Tabl 30 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy: ' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| A ydych yn: | Labeli rhes | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|
| Arall | Dim barn gryf | 1 | 4% |
| | Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb | 10 | 43% |
| | Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos). | 12 | 52% |
| Aelod teulu defnyddiwr | Dim barn gryf | 8 | 33% |
| | Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb | 9 | 38% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwasanaethau gofal | Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos). | 7 | 29% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Dim barn gryf | 3 | 100% |
| Gofalydd di-dâl | Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb | 8 | 53% |
| | Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos). | 7 | 47% |
| Heb nodi | Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb | 1 | |
| | **Cyfanswm Popeth** | 66 | |

*Tabl 31 – Ymatebion i'r cwestiwn* A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)? *fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

| **A ydych yn:** | **Dylai'r Cyngor godi ffi?** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|---|
| Arall | Dim barn gryf | 3 | 13% |
| | Dylai | 12 | 50% |
| | Na ddylai | 9 | 38% |
| Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal | Dim barn gryf | 6 | 22% |
| | Dylai | 7 | 26% |
| | Na ddylai | 14 | 52% |
| Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal | Dim barn gryf | 1 | 33% |
| | Na ddylai | 2 | 67% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofalydd di-dâl | Dim barn gryf | 2 | 12% |
| | Dylai | 4 | 24% |
| | Na ddylai | 11 | 65% |
| Heb nodi | Na ddylai | 1 | |
| | **Cyfanswm Popeth** | 72 | |